

# Strategaethau Cymunedau Di-drais Gwneud Sifiliaid yn Fwy Diogel

Mae tystiolaeth yn dangos bod diogelu sifiliaid diarfog yn broses effeithiol ar lefel gymunedol mewn perthynas â pharodrwydd am argyfwng ac ymateb i argyfwng ar draws y byd.

## Negeseuon allweddol:

- Gall pobl yng Nghymru a'r DG ddioddef o wahanol fathau o drais, yn amrywio o drais domestig a thrais ar sail rhywedd, i droseddau cyllyll a chasineb, ac i anghydfod cymunedol fel terfysgoedd haf 2024.
- Mae tystiolaeth o bob rhan o'r byd yn awgrymu mai cymunedau lleol yn aml yw'r ymatebwyr cyntaf – ac weithiau yr unig ymatebwyr – mewn argyfyngau cymhleth, ac eto, nid yw eu heffaith a'u potensial wedi cael eu cydnabod yn llawn mewn dulliau cyfredol o baratoi a rheoli argyfwng.
- Mae ymchwil gan *Creu Man Diogelach* wedi dangos bod ymdrechion cymunedau i ddiogelu eu hunain ar sail strategaethau ac egwyddorion amddiffyniad sifil heb arfau (unarmed civilian protection) yn gweithio, a bod pobl yn cymryd rhan yn yr ymdrechion parodrwydd ac ymateb argyfwng hyn oherwydd ymrwymiad cryf i'w teulu, cymuned, lle a'u hamgylchedd naturiol.
- Gall y mewnwelediadau hyn lywio gwleidyddiaeth Cymru a gweithredu cymdeithas sifil gan anelu at amrywiaeth a llesiant cymunedol yng nghyd-destun ymrwymiad Cymru i gyfrifoldeb byd-eang (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a dylent roi adborth ar fentrau a pholisïau gartref, fel adroddiad Cymru fel Cenedl Heddwch Academi Heddwch Cymru, Cymru fel Cenedl Noddfa, a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.



Manylion collage gan aelodau o Warchodlu Brodorol Los Almendros II, Antioquia, Colombia. Prosiect 'The Social Process of Guarantees'.

***I am the community and the community is me... we resolved to always put Community first... to stay safe.***

(O'r gerdd 'The Four Commandments of Unarmed Civilian Protection' gan gyfranogwr ymchwil yn Camerŵn. Llyfryn y prosiect 'Resilient Voices'.)

## Yr hyn rydym yn ei wybod

### Parodrwydd am sawl math o argyfwng

Datgelodd ymchwil manwl gan 26 o brosiectau Creating Safer Space ar draws un ar ddeg o wledydd fod pob cymuned a astudiwyd yn defnyddio rhyw fath o strategaethau hunanamddiffyn di-drais a strategaethau parodrwydd am argyfwng lleol. Mae'r strategaethau hyn yn amddiffyn sifiliaid rhag sawl math o argyfwng:

Mathau o argyfwng	Tystiolaeth gwlad prosiect o ymateb argyfwng lleol llwyddiannus
Ymladd rhwng actorion arfog	Camerŵn (rhanbarthau Angloffon), Colombia, Indonesia (Papua), Myanmar, Nigeria, Thailand (De Dwfn), De Swdan
Gwrthdaro rhyng-gymunedol, gan gynnwys trais yn ymwneud ag etholiadau	Kenya, Myanmar (Rakhine), Nigeria, Indonesia (Papua), Ynysoedd y Philipinau (Mindanao), De Swdan
Trais sy'n gysylltiedig gydag ecsbloetio adnoddau naturiol, dinistrio'r amgylchedd, a dwyn tir	Colombia, Indonesia (Papua), Myanmar, Palestina (Lan Orllewinol), Ynysoedd y Philipinau (Mindanao), Thailand (Gogledd), De Swdan (Talaith y Llynnoedd)
Trais unbenaethol	Myanmar
Grym gormodol ac arestio mympwyol gan heddlu'r wladwriaeth a lluoedd diogelwch	Camerŵn (rhanbarthau Angloffon), Colombia, Kenya, Palestina (Lan Orllewinol), Myanmar, Thailand, Ffin yr UDA-Mecsico
Llofruddiaethau ac ymosodiadau wedi'u targedu, e.e. ar arweinwyr cymdeithasol, brodorol neu ieuencid, amddiffynwyr hawliau dynol ac amgylcheddol, artistiaid, ac ati.	Colombia, Kenya, Thailand, De Swdan
Trais troseddol, trais sy'n gysylltiedig â chyffuriau a thrais trefol	Colombia, Kenya, De Swdan, Ffin yr UDA-Mecsico
Dadleoli gorfodol a thrais yn erbyn ffoaduriaid a phobl sydd wedi'u dadleoli'n fewnol	Camerŵn, Colombia, Indonesia (Papua), Myanmar, Palestina (Lan Orllewinol), Ynysoedd y Philipinau (Mindanao), Thailand, De Swdan, Ffin yr UDA-Mecsico
Trais ar Sail Rhywedd a Thrais Rhywiol	Colombia, Indonesia (Papua), Myanmar, Nigeria, Ynysoedd y Philipinau (Mindanao), De Swdan, Ffin yr UDA-Mecsico
Gwrthdaro yn sgil newid hinsawdd	Kenya, Nigeria, De Swdan

## Asiantaeth leol i leihau breuder

Mae cymunedau a sefydliadau cymdeithas sifil yn aml yn cymryd rhan mewn arferion parodrwydd am argyfwng, heb eu galw'n hynny. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd canfod prosesau ymateb a seilweithiau parodrwydd am argyfwng lleol. Trwy ddulliau ymchwil cyfranogol a chreadigol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, mae'r prosiectau Creu Man Diogelach wedi datgelu a threfnu gallu ac ymarfer rheoli ar gyfer argyfwng a dyfwyd gartref, llawer ohono heb ei ddogfennu o'r blaen. Mae gallu a chreadigrwydd cymunedau i ddarparu amddiffyniad a thorri'r cylch trais i'w weld trwy'r amrywiaeth eang o weithgareddau a mecanweithiau a ddogfennir gan ein prosiectau:

- Mae cymunedau'n datblygu **systemau rhybudd cynnar-ymateb cynnar**, e.e. drwy arwyddion a signalau gweledol ar gyfer rhybuddio a chyfathrebu, trwy ddefnyddio ffonau symudol ac apiau negeseuon cymdeithasol i rannu a dilysu gwybodaeth, a thrwy gynllunio ar gyfer ffoi a dadleoli (e.e., dynodi llwybrau diogel, darparu tai diogel). Er enghraifft, yn ystod y gwrthdaro Angloffon Camerŵn, darganfuodd cymunedau grwpiau WhatsApp fel ffordd bwysig o rannu gwybodaeth am weithgareddau actorion arfog a sut i osgoi rhyngweithio â nhw. Mae cymunedau gwledig yn Ne Swdan yn aml yn dal i ddibynnu ar arwyddion traddodiadol, e.e. corsennau wedi'u gosod mewn ffyrdd penodol, i rannu gwybodaeth a rhybuddio eraill. Yn y ddau gyd-destun, mae chwibanau hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn sefyllfa rhybudd cynnar, e.e. annog pobl i ffoi pan fydd actorion arfog yn mynd i mewn i bentref yn y nos.
- Mae sifiliaid yn meithrin ystod o **fesurau ymgysylltu rhagweithiol**. Er enghraifft, maen nhw'n darparu cyfeiliant amddiffynnol i bobl sy'n agored i niwed/dan fygythiad neu dim ond mewn grwpiau y maent yn teithio gyda'i gilydd i gadw eu hunain yn fwy diogel. Yn Nigeria a Camerŵn, er enghraifft, mae menywod yn mynd gyda'i gilydd wrth deithio i'r farchnad neu wrth fynd i weithio ar eu caeau. Mae sifiliaid hefyd yn amddiffyn cymunedau a'u

hamgylcheddau byw trwy ddarparu presenoldeb a sefydlogrwydd sifil, e.e ynghylch tir sy'n destun dadl. Ar gyfer Palestinaid yn y Lan Orllewinol er enghraifft, mae byw a gweithio ar eu tir yn rhan o'u hunaniaeth; felly, mae amddiffyniad yn troi o amgylch cyfeiliant herwyr i'w galluogi i aros yn ddiogel ar y tir. Mae ymgysylltu'n rhagweithiol yn aml yn cynnwys gwarchod a gofalu am natur hefyd, fel afonydd a choedwigoedd. Yng Ngholombia, er enghraifft, mae sefydliadau gwerinol yn Antioquia wedi cynnwys amddiffyn afonydd lleol rhag gweithfeydd pŵer trydan dŵr a phreifateiddio i'w hymdrechion i amddiffyn rhag dadleoli drwy rym.

- Mae **sifiliaid yn trafod ac yn ymgysylltu** â swyddogion y wladwriaeth ac actorion arfog gwladwriaethol ac anwladwriaethol, er enghraifft, trwy ddeialog uniongyrchol a thrwy drafod cydfodoli ag actorion arfog. Ym Myanmar, ar ôl ymosodiad milwrol 2021, mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi defnyddio mecanweithiau sefydledig amddiffyn sifil heb arfau i gadw sifiliaid yn ddiogel rhag lefelau uwch o drais gan y wladwriaeth a recriwtio gorfodol gan grwpiau arfog. Mewn cyd-destunau eraill, mae sifiliaid wedi dal drych i fyny i'r trais trwy actifiaeth celf, er enghraifft, yn achos creulondeb yr heddlu yn erbyn ieuencid yn Kenya, neu drwy ddefnyddio gweithgareddau diwylliannol fel pêl-droed neu theatr i adennill gofod cyhoeddus, fel yn achos y nifer o sefydliadau artistig sy'n gweithio i greu gofod mwy diogel yng nghanol y trais sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ninas Medellin Colombia.
- Mae cymunedau'n **monitro ac yn cofnodi digwyddiadau ac achosion o gam-drin treisgar**, gan ddefnyddio prosesau cyfreithiol weithiau i fynd i'r afael â'r bygythiadau ac yn aml, yn cydweithredu â rhwydweithiau eiriolaeth cenedlaethol a rhyngwladol ehangach i roi pwysau ar gyflawnwyr. Yng Ngholombia, mae cyfoeth o sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cefnogi cymunedau yn y tasgau hyn, er enghraifft, trwy ymglyfreitha strategol cwmnïau sy'n defnyddio cefnogaeth arfog i ddadleoli cymunedau a manteisio ar adnoddau.

## Cyd-destun, gwybodaeth ac ymwreiddio

Ar draws y gwahanol gyd-destunau ymchwil, fe wnaeth prosiectau *Creating Safer Spaces* ganfod prosesau sylfaenol a rennir, sy'n gwneud parodrwydd am argyfwng lleol a'i reoli yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus:

- Mae parodrwydd ac ymateb i argyfwng cymunedol di-drais yn adeiladu ar asiantaeth a gwybodaeth leol; **mae'n gyd-gysylltiedig ac wedi'i wreiddio mewn cymunedau**. O'r herwydd, mae'n mynd y tu hwnt i amddiffyniad rhag trais corfforol uniongyrchol neu argyfyngau dyngarol ac yn aml, mae'n cynnwys brwydrau yn erbyn trais strwythurol a diwylliannol yn ogystal ag arferion gofal ar gyfer y gymuned, natur, ac mewn rhai achosion, y byd ysbrydol.
- Mae **cyd-destun gwybodaeth a pherthnasoedd** yn hollbwysig i ymdrechion amddiffyn lleol. Mae cymunedau'n adeiladu ar arferion traddodiadol, perthnasoedd teuluol, parch at henuriaid, neu gyfalaf cymdeithasol (statws, rhwydweithiau) arweinwyr traddodiadol, crefyddol a chymunedol eraill i drafod manau mwy diogel i sifiliaid. Ymhlith y rhai sy'n ymarfer amddiffyniad sifil diarfog lleol yw sifiliaid o bob rhywedd, grŵpiau oedran, proffesiynau a chefnidiroedd eraill.
- Mae cymunedau'n hynod **greadigol wrth ddyfeisio strategaethau amddiffyn a pharodrwydd am argyfwng**. Bydd dulliau gweithredu'n amrywio yn dibynnu ar y cyd-destun penodol, ond mae sifiliaid yn barod i addasu dulliau presennol i'w hanghenion penodol neu amgylcheddau bygythiad sy'n newid, fel y rhai sy'n deillio o fygythiadau dysgu ac addasu actorion neu macro-ddatblygiadau fel newid yn yr hinsawdd?

## Argymhellion Polisi

Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â sefydliadau cymdeithas sifil perthnasol yng Nghymru:

**Gefnogi amddiffyn sifiliaid diarfog dramor drwy'r ffurfiau canlynol:**

- Cydnabod ffurfiau amddiffyn di-drais, sifiliaid i sifiliaid** fel ymarfer credadwy a phwysig mewn polisi amddiffyn, sy'n berthnasol ac yn effeithiol yn gyffredinol.
- Archwilio ffyrdd o gefnogi** gallu, asiantaeth a gwybodaeth cymunedau lleol eu hunain wrth ddiogelu eu hunain ac eraill, e.e. fel rhan o drafodaeth ar Gymru fel Cenedl Heddwch.
- Defnyddio ei dylanwad ar lefel y DG i wella cydnabyddiaeth, cefnogaeth ac adnoddau mentrau amddiffyn sifiliaid fel rhan o ddadleuon ar amddiffyn a chymorth dyngarol.**

## Heriau

Fe wnaeth cymunedau sy'n ymwneud â phrosiectau *Creu Manau Diogelach* hefyd rannu heriau maen nhw'n eu hwynebu, gan gynnwys y canlynol:

- Yn union fel cymorth dyngarol rhyngwladol, mae **hunan-ddiogelwch di-drais cymunedau yn dibynnu ar isafswm o barch at fywydau sifiliaid**; mae trais diwahaniaeth, yn enwedig mewn sefyllfaoedd o wahaniaethu pŵer mawr rhwng partïon rhyfelgar, yn anodd ei atal
- Mae parodrwydd am argyfwng cymunedol yn dibynnu fwyfwy ar **gyfathrebiadau ffôn symudol ac apiau cyfryngau cymdeithasol**. Ac eto, nid oes gan bob aelod o'r gymuned fynediad atynt, gellir cymryd dyfeisiau oddi ar rhywun, a gellir camdefnyddio sianeli cyfathrebu i ledaenu camwybodaeth.
- Yn aml, **nid oes gan fesurau parodrwydd ac ymateb i argyfwng lleol symiau bach o gyllid** a fyddai'n eu gwella, e.e. prynu ffonau symudol neu feic modur i gysylltu â chymunedau cyfagos a rhannu gwybodaeth.
- Yn aml mae angen **rhywfaint o gefnogaeth allanol** ar gymunedau, e.e. trwy eiriolaeth ac undod rhyngwladol, i dyfu mewn hygredded a gallu ymgysylltu ag actorion a systemau swyddogol gyda'r nod o symud o fod yn barod ac amddiffyn i drawsnewid gwrthdaro.

## Rhagor o wybodaeth

- Gwefan Creu Man Diogelach: <https://creating-safer-space.com>
- Cylchlythyr Creu Man Diogelach: <https://creating-safer-space.com/contact/>
- Cronfa Ddata Ymchwil: <https://creating-safer-space.com/ucpre-search-database/>

**Cyflwyno gwersi a ddysgwyd mewn cyd-destunau eraill gartref drwy'r ffyrdd canlynol:**

- Cefnogi ac ariannu sefydliadau sy'n cynnig hyfforddiant capasiti** ar strategaethau amddiffyn yn y gymuned (e.e. hyfforddiant gwylwr gweithredol), i helpu i gynyddu gwybodaeth a galluedd amddiffyn sifiliaid di-drais i fwy o gymunedau sydd mewn (o bosibl) eu hangen.
- Cynnwys amddiffyniad di-drais yn y gymuned ym mholisiau a chynlluniau gweithredu Cymru**, yn enwedig o amgylch Cymru fel Cenedl Noddfa ac yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Cyflwyno dysgu am strategaethau di-drais ar gyfer amddiffyn y gymuned** (e.e. egwyddorion ac enghreifftiau o weithredu di-drais) **yng nghwricwlwm Cymru**.

# Ein Rhwydwaith Ymchwil



**26**

Prosiect Ymchwil



Ymchwil mewn

**11**

o wledydd



Cynhelir gan **202** o ymchwilwyr



Gweithio gyda thua **2100** o gyfranogwyr ymchwil yn uniongyrchol



Wedi meithrin cyswllt â dros **8000** o bobl hyd yma drwy eu gweithgareddau i ledaenu gwybodaeth



Arweinig gan sefydliadau ledled y byd



**15** prosiect dan arweiniad sefydliadau yn y De Byd-eang

**11** prosiect dan arweiniad sefydliadau yn y Gogledd Byd-eang

Wedi darparu dros

**£960,000**

mewn grantiau



## Awduron

- Mae **Berit Bliesemann de Guevara**, PhD, yn Athro Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, y DG, ac yn Brif Ymchwilydd Creu Man Diogelach. Mae hi wedi helpu i ffurfio Cymuned Ymarfer Diogelu Sifiliaid Diarfog ers 2017, ac mae hi'n aelod o'r Pwyllgor Llywio.
- Mae **Rachel Julian**, PhD, yn Athro Astudiaethau Heddwch ym Mhrifysgol Leeds Beckett, y DG, ac yn gyd-ymchwilydd Creu Man Diogelach, ac mae hi hefyd yn arwain ar sawl prosiect cysylltiedig yn Affrica ac Asia. Mae ganddi fwy nag ugain mlynedd o brofiad o ymchwilio ac ymarfer Diogelu Sifiliaid Diarfog mewn rolau gwahanol.
- Mae **Nerve V. Macaspac**, PhD, yn Athro Cynorthwyol mewn Daaryddiaeth yn CUNY, yr UDA, ac yn gyd-ymchwilydd Creu Man Diogelach. Mae ei ymchwil yn arbenigo mewn 'parthau heddwch' wedi'u dad-filitareiddio dan arweiniad y gymuned yn Ne-ddwyrain Asia. Mae Nerve yn cefnogi gwaith hawliau dynol yn Ynysoedd y Philipinau hefyd.

Mae **Creu Mannau Diogelach** yn rhwydwaith ymchwil rhyngwladol 5 mlynedd, gwerth £2.25 miliwn, y mwyaf o'i fath hyd yn hyn. Rydym yn cefnogi ymchwil ar amddiffyn sifiliaid heb arfau ac ar hunan-amddiffyn yng nghanol gwrthdaro treisgar, ac yn anelu at gryfhau galluedd sifiliaid ar gyfer amddiffyn di-drais a thrawsnewid gwrthdaro.

Creu Man Diogelach, Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, Prifysgol Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, SY23 3HR, Cymru, DG

E-bost: [creating-safer-space@aber.ac.uk](mailto:creating-safer-space@aber.ac.uk)

Gwefan: [www.creating-safer-space.com](http://www.creating-safer-space.com)

